CYFRES A10

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o lyfr yr Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 16: 9-40

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 16:31

Astudiaeth 1 Paul yn Philipi

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 10: 8-13

Aeth Paul a'i gymdeithion ymlaen ar eu taith gan gyrraedd Troas ym mhen amser. Un noson yn Nhroas, cafodd Paul weledigaeth – safai dyn a anfonwyd gan Dduw o'i flaen yn ymbil arno.

C **Beth ddywedodd y dyn?**

1

Ar unwaith, cychwynnodd Paul a'i gymdeithion am Facedonia, yn gwbl argyhoeddedig fod Duw yn eu galw i bregethu'r Efengyl yn y fan honno. Dyma daith gyntaf Paul i Ewrop. Roedd hwn yn gam mawr iddo – mynd ag efengyl Iesu Grist i gyfandir newydd. Efallai mai dyma pam y bu i Dduw siarad â Paul am y mater mewn ffordd mor arbennig. Cyrhaeddodd Paul ddinas Philipi. Aeth i lecyn ar lan yr afon lle'r arferai nifer o wragedd gyfarfod i weddïo. Eisteddodd Paul a'i gyfeillion a dechrau siarad â nhw.

C **Pwy oedd y person cyntaf i ymateb i'w neges?**

1

C **Pam y bu i hon ymateb?**

Roedd hi eisoes yn 'un oedd yn addoli Duw', ond dechreuodd Paul esbonio wrthi am yr Arglwydd Iesu, ac fe dderbyniodd Ef yn llawen fel ei Gwaredwr a'i Harglwydd. Dyna wnaeth aelodau ei theulu hefyd.

1

C **Sut y dangosodd hi a'i theulu eu bod bellach yn credu yn yr Arglwydd Iesu?**

1

Mae'r wraig nesaf y darllenwn amdani yn berson cwbl wahanol

C **Sut mae hon yn cael ei disgrifio?**

2

Bu hon yn dilyn Paul a'i gymdeithion am sawl diwrnod, gan weiddi ar eu hôl.

C **Beth oedd hi'n ei weiddi?**



2

Roedd Paul wedi'i gyffroi ond chafodd e mo'i dwyllo. Er gwaethaf geiriau'r ferch, gwyddai Paul fod ysbryd aflan ynddi ac mai'r ysbryd hwnnw oedd yn cydnabod pwy oedden nhw. O'r diwedd, trodd Paul ati gan siarad yn uniongyrchol â'r ysbryd.

C **Beth ddywedodd e?**



2

Mae awdurdod yn enw Iesu Grist. Doedd gan yr ysbryd aflan ddim dewis ond ufuddhau. Trachwant oedd yn sbarduno meistri (perchnogion) y ferch hon. Y cyfan roedden nhw ei eisiau oedd gwneud arian. Roedden nhw am ddial ar Paul a Silas ac fe aethant at yr ynadon gan ddwyn cam gyhuddiadau yn erbyn y ddau. Gwelodd yr ynadon bod y dyrfa yn ochri gyda meistri'r ferch.

C **Beth oedd gorchymyn yr ynadon?**

1

C **Gosodwch y brawddegau canlynol yn y drefn gywir drwy eu rhifo 1 i 7.**
(Mae Rhif 1 wedi'i wneud trosoch)

..... Galwodd ceidwad y carchar am oleuadau.
..... Ganol nos, roedd Paul a Silas yn gweddïo ac yn canu mawl i Dduw.
..... Agorwyd y drysau led y pen a datodwyd cadwynau pob un o'r carcharorion.
..... Rhuthrodd ceidwad y carchar i mewn a syrthiodd yn grynedig wrth draed Paul a Silas.
..1.. Bwriodd ceidwad y carchar Paul a Silas i'r carchar mewnol.
..... Siglwyd seiliau'r carchar gan ddaeargryn enbyd.
..... Tynnodd ceidwad y carchar ei gleddyf gyda'r bwriad o'i ladd ei hun.

3

Sylweddolodd ceidwad y carchar fod gwyrth wedi digwydd. Roedd Duw nid yn unig wedi anfon daeargryn ond hefyd wedi agor holl ddrysau'r carchar a datod cadwynau pob un o'r carcharorion.

C **Beth ofynnodd ceidwad y carchar i Paul a Silas?**

3

C **Beth oedd yr ateb a dderbyniodd?**

C **Er hynny, nid dyna'r cyfan ddywedodd Paul a Silas. Ysgrifennwch adnod 32.**

2

Y noson honno, credodd ceidwad y carchar a'i deulu cyfan a chawsant eu hachub! Heb unrhyw oedi, bedyddiwyd pob un ohonynt. (Yn y Beibl, mae bedydd yn dilyn tröedigaeth bob tro.)

C **Sut oedd ceidwad y carchar a'i deulu yn teimlo ynglŷn â'u ffydd newydd yn Nuw? (gweler adnod 34))**

1

Cyn i Paul a Silas adael Philipi, aethant i gartref Lydia er mwyn cyfarfod am y tro olaf â'r holl rai hynny ddaeth yn Gristnogion yn ystod arhosiad y ddau yn y ddinas honno.
Aeth Paul a Silas oddi yno gan eu gadael gyda geiriau o gysur ac anogaeth.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 17: 1-14

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 17: 11

Astudiaeth 2 Paul yn Thesalonica a Berea

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
1 Thesaloniaid 2:18

Ar ôl teithio drwy nifer o ddinasoedd, cyrhaeddodd Paul Thesalonica, dinas wedi'i lleoli ar y groesffordd rhwng priffyrdd y dwyrain a'r gorllewin a phriffyrdd y de a'r gogledd. Ymddengys mai am gyfnod byr iawn y bu Paul yn aros yn y ddinas hon.

Grid Geiriau

Cliwiau
1. Aeth Paul drwy'r ddinas hon.
2. Defnyddiodd Paul yr Ysgrythurau er mwyn ..... mai Iesu yw'r Meseia.
3. Ymosododd y dyrfa ar dŷ'r gŵr hwn.
4. Y dref gyntaf lle'r arhosodd Paul, yn ôl y darlleniad o'r Beibl.
5. Aeth Paul, fel arfer, i'r adeilad hwn.
6. Roedd y dyrfa'n honni bod Paul yn ceisio dyrchafu Iesu fel ..... arall.
7. "Hwn yw'r ..... – Iesu, yr hwn yr wyf fi'n ei gyhoeddi i chwi."
8. Esboniodd Paul wrthynt fod yr Ysgrythurau yn dangos bod yn rhaid i Iesu ddioddef, ... ac yna atgyfodi.



9



C **Lliwiwch enw'r lle arall y teithiodd Paul drwyddo. (Mae hwn wedi'i ysgrifennu ar draws y Grid Geiriau)**

1

O'r hyn a ddarllenai'r Iddewon yn yr Hen Destament, rhaid eu bod yn disgwyl y Meseia, (y Crist). Serch hynny, roedd y syniad o Feseia fyddai'n marw yn beth dieithr iddyn nhw. Defnyddiodd Paul yr Hen Destament i brofi mai dyma oedd rhaid, ac aeth yn ei flaen i ddangos bod Iesu wedi cyflawni popeth oedd wedi'i ysgrifennu am y Meseia dioddefus. Felly Iesu, yn wir, oedd y Crist, neu'r Meseia. Argyhoeddwyd rhai o'r gwirionedd hwn, ac fe ddaethant yn Gristnogion.

C **Ychydig wedi hyn, ysgrifennodd Paul lythyr at y Cristnogion newydd hyn. 'Y Llythyr Cyntaf at y Thesaloniaid' yw'r enw a roddwn ar hwn. Sut mae Paul yn disgrifio'r eglwys hon sydd newydd ei sefydlu? (1 Thesaloniaid 1:1)**

2

Ar ôl sefydlu eglwys yn Thesalonica, bu'n rhaid i Paul adael y ddinas ar frys. Fel arfer, aeth yr Iddewon anghrediniol ati i greu terfysg, a hynny am eu bod yn eiddigeddus.

C **Sut aeth yr Iddewon eiddigeddus hyn ati i greu terfysg yn y ddinas?**

2

C **Ysgrifennwch beth ddywedon nhw am Paul a'i gymdeithion.**

2

Mae'n debyg bod yr Iddewon yn credu bod Paul a'i gyfeillion yn nhŷ Jason.
Efallai mai dyma ble'r oedd Paul yn byw pan oedd yn yr ardal. Llusgwyd Jason a chredinwyr eraill allan a chawsant eu cyhuddo ar gam. Gan nad oedd Paul yn bresennol, doedd dim rhyw lawer y gallai'r llywodraethwyr ei wneud. Cafodd Jason a'r gweddill eu rhyddhau ganddynt ar fechnïaeth, a chawsant sicrwydd y byddai'r arian gwarant a dalwyd yn cael ei roi nôl iddynt cyhyd â bod y ddinas yn rhydd o derfysg. Gadawodd Paul Thesalonica gan fentro ymhellach i berfeddwlad Macedonia, i dref o'r enw Berea.



C **Sut y bu i'r Iddewon yn Berea ymateb i eiriau Paul?**

2

Dyma ddylai fod ein hymateb ni hefyd pan glywn Air Duw yn cael ei bregethu. Dylem fod yn awyddus i wrando, dylai ein meddyliau a'n calonnau fod yn barod i dderbyn y Gair. Dylem fwydo'n feunyddiol ar Air Duw (Josua 1: 8) drwy ddarllen ein Beiblau. Canlyniad chwilio o ddifrif yn yr Ysgrythurau yw y daw llawer i gredu – fel yn Berea. Os chwiliwn ni drwy'r Ysgrythurau gan ddymuno gwybod y gwirionedd, yna fe ddown o hyd i'r Gwirionedd – yr Arglwydd Iesu ei Hun – ac fe fydd gwir ffydd yn dilyn.

C **Unwaith eto, bu'n rhaid i Paul adael ar frys. Pam?**

2

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 17: 15-34
18: 1-18

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 17: 30 a 31

Astudiaeth 3 Paul yn Athen a Chorinth

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

1 Corinthiaid 2: 1-5, 15: 1-4

I Paul yn Athen, roedd gweld pobl yn addoli delwau yn brofiad gwaeth na dim ddaeth i'w ran erioed. Roedd y ddinas yn enwog am ddiwylliant ac athroniaeth ond roedd yn gwbl amlwg bod hyn wedi eu harwain i dywyllwch ysbrydol, a'u troi oddi wrth y gwir Dduw.
Cyffrowyd ysbryd Paul yn ddirfawr a dechreuodd adrodd wrth y bobl y gwir am yr Arglwydd Iesu a'i atgyfodiad.

C **Pa ddau grŵp aeth â Paul i Fynydd Mawrth? (neu'r Areopagus)** 1

Roedd y bregeth draddododd Paul yn y fan honno wedi'i hanelu'n benodol at y rhai hynny na wyddent ddim am Grist. Cyfeiriodd Paul at un o'u hallorau a welsai ar ei daith drwy'r ddinas.

C **Beth oedd yr arysgrif ar yr allor hon?** 1

Aeth Paul yn ei flaen drwy sôn am Dduw'r Creawdwr ac yna tynnodd sylw at faterion mwy personol.

C **Edrychwch ar yr Adnod Allweddol.**
Beth mae Duw yn ei orchymyn nawr? 1

C **Mae Duw wedi pennu diwrnod ar gyfer beth?** 1

C **Cafwyd tri ymateb i neges Paul. Beth oedden nhw?** 3

1
2
3

Wedi hyn, aeth Paul i Gorinth.

C **Beth oedd yn gyffredin rhwng Paul a Phriscila ac Acwila ac a barodd iddo aros gyda nhw?** 1

C **Sut y bu i'r Iddewon yng Nghorinth ymateb i neges Paul?** 1

C **Beth oedd ymateb Paul i hyn?**

1

Er hynny, daeth llawer yn Gristnogion, yn Iddewon (e.e. Crispus a'i deulu) a Chenedl-ddynion (e.e. Jwstus) fel ei gilydd, ac wedi dod i gredu, cawsant eu bedyddio. Siaradodd Duw unwaith eto â Paul mewn gweledigaeth ganol nos.

C **Beth wnaeth Paul o ganlyniad i'r hyn a ddywedodd yr Arglwydd?**

1

Roedd Duw yn cynnig cyfle rhyfeddol i drigolion dinas bechadurus Corinth gael eu hachub. Mae Ef heddiw yn rhoi cyfle tebyg i chithau. Gwnewch yn siŵr nad fyddwch yn gwastraffu'r cyfle! Nodwch y geiriau ysgrifennodd Paul yn ei lythyr atyn nhw yn ddiweddarach:
"Oherwydd dewisais beidio â gwybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, ac yntau wedi ei groeshoelio ... er mwyn i'ch ffydd fod yn seiliedig, nid ar ddoethineb ddynol, ond ar allu Duw."
(1 Corinthiaid 2: 2 a 5)

C **Yn y Chwilair, fe welwch enwau rhai o'r bobl a gofnodwyd fel rhai oedd yn byw naill ai yng Nghorinth neu yn Athen.**

Defnyddiwch y cliwiau isod i'ch helpu i ddod o hyd iddyn nhw, ac ysgrifennwch yr atebion yn y bylchau priodol.
Rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair.

S	A	L	I	C	S	I	R	P
D	W	D	A	M	A	R	I	S
C	I	Th	O	U	Y	N	D	O
L	A	O	I	L	A	G	N	S
A	C	U	N	P	O	D	U	Th
W	W	R	A	Y	G	T	P	E
D	I	O	I	E	S	R	L	N
I	L	S	A	W	E	I	D	E
U	A	E	J	N	Th	W	U	S
S	C	R	I	S	P	U	S	S

9

1 a 2. Y ddau berson a enwir fel y rhai a gredodd neges Paul yn Athen.

----------a ----------

3 a 4. Arhosodd Paul gyda'r gŵr hwn a'i wraig yng Nghorinth.

----------a ----------

5. Y llywodraethwr a orchmynnodd i'r holl Iddewon ymadael â Rhufain.

6. Rhaglaw (dirprwy) Achaia.

7. Roedd cartref y gŵr hwn drws nesaf i'r synagog yng Nghorinth.

(Os yw eich Beibl yn rhoi dau enw, dim ond yr ail enw sydd wedi'i gynnwys yn y Chwilair.)

8 a 9. Dau arweinydd y synagog yng Nghorinth sy'n cael eu henwi.

----------a ----------

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 19: 1-41

ADNOD ALLWEDDOL
Effesiaid 2: 8 a 9

Astudiaeth 4 Paul yn Effesus

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Effesiaid 2: 1-10

Roedd Effesus yn ddinas lle'r oedd y mwyafrif yn addoli'r dduwies Diana (Artemis). Lle yn llawn drygioni a llygredigaeth oedd y deml a gysegrwyd i'w henw. Daethai Paul ar ymweliad â'r ddinas hon ar ddiwedd ei ail daith genhadol. Nawr, beth amser yn ddiweddarach, roedd wedi dychwelyd, fel yr addawodd y gwnâi, os mai dyna fyddai ewyllys Duw. (Gweler Actau 18: 19-21)
Ar ôl cyrraedd, daeth Paul ar draws tua deuddeg o ddisgyblion oedd heb glywed y stori gyfan am yr Arglwydd Iesu Grist. Gofynnodd Paul nifer o gwestiynau iddyn nhw am eu ffydd.

C Ysgrifennwch y cwestiynau hyn a'r atebion a roddwyd ganddynt.

C. ..... ?

A. ..... !

C. ..... ?

A. ..... !

4

Esboniodd Paul wrthynt fod y bedydd hwn yn wahanol i'r bedydd Cristnogol. Roedd Ioan Fedyddiwr wedi cyfeirio pobl ymlaen at yr Arglwydd Iesu a oedd, bryd hynny, eto i ddod. Bellach, nid yn unig roedd yr Arglwydd Iesu wedi dod ond roedd Ef wedi gwneud y cyfan oedd ei angen i dalu'r ddyled am ein pechodau. Ar unwaith, rhoddodd y rhain eu ffydd yng Nghrist ac aethant ati i ddangos hyn drwy gael eu bedyddio yn enw'r Arglwydd Iesu.

C RHIFAU – At beth mae'r rhifau canlynol yn cyfeirio?
Ysgrifennwch frawddeg am bob un.

Dwy flynedd -
2 awr -
3 mis -
7 mab -
12 disgybl -
50,000 drachmas - (neu ddarnau arian)

6



C **POBL – Ysgrifennwch frawddeg am bob un o'r dynion canlynol.**

Erastus - (adn. 22)

Demetrius - (adn. 24)

Aristarchus - (adn. 29)

Clerc y Ddinas - (adn. 35)

4

C **YMATEBION.**

Beth oedd ymateb rhai o'r Iddewon i bregethu Paul yn y synagog? (Gweler adnodau 8 a 9)

1

C **Beth oedd ymateb yr Effesiaid i'r hyn a ddigwyddodd i saith mab Scefa?**

1

Nodir yn benodol mai drwy nerth Duw y cyflawnodd Paul y gwyrthiau arbennig yn Effesus. (Gweler ad. 11). Pan geisiodd rhai o'r Iddewon efelychu Paul, bu eu hymdrechion yn fethiant llwyr.

C **Darllenwch yn ofalus beth ddywedodd Demetrius wrth ei gyd-grefftwyr yn adnodau 24-27. Beth oedd eu hymateb i eiriau Demetrius?**

2

Er gwaethaf yr holl wrthwynebiad, lledaenwyd y Gair ymhell ac agos. Clywodd Iddewon a Groegiaid ym mhob cwr o Asia 'Air yr Arglwydd Iesu' a chafodd llawer eu hachub. (Gweler ad.10)

C **Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym sut y derbyniwyd y fendith fawr hon ganddynt.**

2

Mae Effesiaid Pennod 2 yn werth ei hastudio, os ydych am fod yn sicr ynglŷn ag iachawdwriaeth. Oherwydd bod Cristnogion Effesus yn bechaduriaid, yn union fel ninnau, maent yn cael eu disgrifio yn yr adnodau cyntaf fel pe baent yn feirw, yng ngolwg Duw beth bynnag. (Adnodau 1-3). Er hynny, drwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu, cawsant eu bywhau a'u dwyn i brofi bendithion iachawdwriaeth. Dywedodd Paul na all gweithredoedd da achub neb, ond gall ffydd yng Nghrist wneud hynny. (Adnodau 8 a 9). Mae gweithredoedd da, felly, yn brawf o iachawdwriaeth. (Adnod 10)

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120